MEMORANDWM ODDI WRTH Y GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI

CYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amgylchedd) 2010

Cyflwyniad

1. Mae'r Memorandwm hwn yn gosod y cefndir i'r darpariaethau yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amgylchedd) 2010 sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a osodwyd gerbron yn unol â RhS 22.31 ac sy'n esbonio cwmpas y pwerau a geisir.

2. Gosodir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) ac ym mholisi Llywodraeth Y DU a gynhwysir yn y Papur Gwyn "Trefn Llywodraethu Well i Gymru". Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad Cenedlaethol') i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar Faterion penodedig. Caniateir ychwanegu'r Materion hyn at Feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Deddf Seneddol ei gwneud, o ran Materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Yn y Memorandwm hwn cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD).

3. Mae'r GCD yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Maes yr Amgylchedd (Maes 6 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Atodir copi o Atodlen 5 yn Atodiad A, sy'n dangos y cymhwysedd deddfwriaethol a gaffaelwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma.

Y cefndir

Y Cyd-destun Strategol

4. Mae'r GCD hwn yn darparu cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â gwastraff, llygredd a niwsansau. Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i nodir yn y Rhaglen Llywodraethu *Cymru'n Un* yw

amgylchedd gwirioneddol gynaliadwy, ac y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn polisïau ac yn gweithredu mewn nifer o ffyrdd i wireddu'r weledigaeth honno. Mae'r Amgylchedd yn faes polisi a ddatganolwyd ers cyfnod hir, ac yr oedd yn un o'r Meysydd a restrwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, a drosglwyddodd swyddogaethau Gweinidogol oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol pan sefydlwyd y Cynulliad gyntaf. Yn ychwanegol, mae swyddogaethau gweithredol pellach wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru mewn Deddfau Seneddol diweddarach. Mae'r GCD drafft yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd lle mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol eisoes. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig deddfwriaeth a fyddai'n gymorth i gyflawni ei gweledigaeth. Yr GCD hwn oedd un o'r Gorchmynion cyntaf oll a ddygwyd gerbron gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac y mae'n rhan annatod o'i rhaglen ddeddfwriaethol.

5. Mae dull cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ymdrin â gwastraff, llygredd ac ansawdd yr amgylchedd lleol wedi ei bennu mewn nifer o ddogfennau polisi strategol. Y ddogfen drosfwaol allweddol yw Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n arbennig o berthnasol i gwmpas y pwerau sydd yn y Gorchymyn. Yn adran 79 o Ddeddf 2006 gosodir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi cynllun a fydd yn nodi'r modd y maent, wrth arfer eu swyddogaethau, yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Ym Mai 2009 lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Datblygu Cynaliadwy diwygiedig o dan y teitl '*Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'* a oedd yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o Gymru gynaliadwy ac yn gwneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog ar gyfer datblygu a gweithredu polisïau. Er mwyn cyflawni hyn o fewn un cenhedlaeth, mae'r cynllun diwygiedig yn nodi y bydd angen lleihad o ddwy ran o dair yng nghyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwn ar hyn o bryd i gynnal ein dulliau o fyw. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad radical o 80% - 90% yn ein defnydd o ynni sy'n seiliedig ar garbon a lleihad cyffelyb yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr; dull o reoli gwastraff sy'n sylfaenol wahanol, gan symud i gyfeiriad cenedl ddiwastraff; ac ad-drefnu ein dull o fyw ac o weithio er mwyn teithio llai mewn ceir. Mae'r GCD hwn yn rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig deddfwriaeth a ddaw'n offeryn hollbwysig ar gyfer cyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy.

6. Yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy amlinellir dull cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynd ati, ar draws ei hamrediad llawn o gyfrifoldebau, i wireddu'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy. Mae Strategaeth Amgylcheddol Cymru (2006) yn adeiladau ar ddyheadau'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy drwy ddarparu manylion pellach am strategaeth hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer amgylchedd Cymru. Y

Strategaeth Amgylcheddol sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ac yn sefydlu'r fframwaith i greu amgylchedd glân, bioamrywiol ac iach a werthfawrogir gan bobl Cymru. Cefnogir y Strategaeth gan gyfres o gynlluniau gweithredu a map o'r meysydd polisi sy'n pennu'r camau allweddol a gymerir er mwyn cyrraedd canlyniadau'r Strategaeth. Mae nifer o'r canlyniadau a'r gweithredoedd allweddol yn berthnasol i gwmpas yr GCD.

7. Ynglŷn â rheoli gwastraff, mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn pwysleisio y bydd sicrhau patrwm mwy cynaliadwy o ddefnyddio adnoddau a chynhyrchu yn helpu i leihau effaith gweithgarwch economaidd ar yr amgylchedd. Yn y Strategaeth, nodir amrediad o ganlyniadau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag atynt, gan gynnwys lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru; derbyn yr egwyddor o 'leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu' ledled llywodraeth, busnes, diwydiant a bywyd domestig; sicrhau y sefydlir cyfleusterau priodol i reoli gwastraff, er mwyn lleihau tirlenwi i'r eithaf; ac annog y sector busnes i ddylunio cynhyrchion sy'n defnyddio llai o adnoddau ac yn achosi gwastraff minimol.

8. Nod arall y Strategaeth yw lleihau llygredd i'r eithaf, ynghyd â'i effaith ar yr amgylchedd ac ar iechyd. Mae'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag atynt yn cynnwys lleihau llygredd aer, a thrwy hynny estyn disgwyliad oes; a chynnal a gwella ansawdd dŵr daear, afonydd, llynnoedd a'r dyfroedd arfordirol.

9. Ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd yn lleol, mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn datgan mai nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau mannau lle nad effeithir yn andwyol ar ansawdd bywyd gan niwsansau amgylcheddol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i leihau niwsansau amgylcheddol megis sbwriel, tipio, graffiti, baw cŵn, gosod posteri yn anghyfreithlon, llygredd sŵn a llygredd golau.

10. Ychwanegiad at ddull strategol y Strategaeth Amgylcheddol yw fframwaith hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau, a bennir yn y ddogfen 'Yn Gall gyda Gwastraff – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' (2002). Mae'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol yn rhoi manylion pellach am y modd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth ag eraill i symud Cymru o'i gorddibyniaeth ar dirlenwi i gyfeiriad dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff drwy gynhyrchu llai ohono a'i reoli yn fwy effeithiol, ailgylchu a chompostio llawer rhagor, a gwaredu yn ddiogel pa bynnag wastraff na ellir ei ailgylchu neu ei gompostio. Adolygwyd 'Yn Gall gyda Gwastraff' yn ddiweddar, a chyhoeddwyd Strategaeth Wastraff ddiwygiedig, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ar gyfer ymgynghori yn Ebrill 2009. Yn hon, pennir y nodau hirdymor ar gyfer rheoli gwastraff ac

effeithlonrwydd adnoddau. Wrth fabwysiadu dull ‘dim gwastraff’, y nod hirdymor (erbyn 2050) yw cynhyrchu dim gwastraff drwy gynllunio cynhyrchion a gwasanaethau a fydd yn lleihau neu’n ailddefnyddio gwastraff cyn belled ag y bo modd, a datblygu economi leol hyfedr ar gyfer rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau.

Y Fframwaith Deddfwriaethol Cyfredol

11. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bwerau gweithredol sylweddol a chymhwysedd is-ddeddfu ar gyfer amrediad eang o ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r amgylchedd. Mewn cysylltiad â chwmpas y pwerau yn y Gorchymyn, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang iawn a ddatganolwyd o nifer o ffynonellau. Y canlynol yw ffynonellau allweddol y pwerau hynny:

12. Mae’r Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 a Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989 yn darparu pwerau ynglŷn â chludo a gwaredu gwastraff, llygredd dŵr, llygredd sŵn, llygredd atmosfferig ac iechyd y cyhoedd.

13. Mae’r Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoli dympio gwastraff yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru.

14. Mae Deddfau Llywodraeth Leol 1988 a 1999 yn darparu pwerau ychwanegol mewn cysylltiad â gosod targedau statudol ar gyfer ailgylchu a chompostio.

15. Mae’r Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â rheolaeth integredig ar lygredd a rheolaeth integredig ar lygredd aer; niwsansau statudol ac aer glân; tir halogedig; gwastraff; a sbwriel.

16. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr a Deddf Adnoddau Dŵr 1991 mae gan Weinidogion Cymru y swyddogaethau o reoleiddio ansawdd ac iachusrwydd dŵr, ac atal a rheoli llygredd dŵr, mewn perthynas â Chymru.

17. Mae’r Ddeddf Aer Glân 1993 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â rhai mathau o allyriadau i'r aer.

18. Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau a chanllawiau i Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cysylltiad â'r modd y mae'r Asiantaeth yn cyflawni ei swyddogaethau eang yng Nghymru, sy'n cynnwys rheoli llygredd, gwastraff a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

19. Mae'r Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 yn ddeddfiad allweddol sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio unrhyw fath o weithgareddau sy'n llygru, neu atal neu reoli allyriadau a allai achosi unrhyw lygru.

20. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn darparu pwerau mewn cysylltiad â graffiti.

21. Mae'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn darparu pwerau gweithredol allweddol ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd lleol, ynglŷn â sŵn ac ynglŷn â Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

22. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau sylweddol hefyd o dan Orchmynion Dynodi, sy'n eu dynodi at ddibenion cyflawni cyfraith Ewropeaidd. Y canlynol yw rhai o'r Dynodiadau allweddol:

- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2000 (OS 2000/2812 - Dynodiad mewn cysylltiad ag ansawdd aer)
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2003 (OS 2003/1246 - Dynodiad mewn cysylltiad â dŵr gwastraff trefol a diwydiannol);
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 4) 2003 (OS 2003/2901- Dynodiad mewn cysylltiad ag adnoddau dŵr)
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 7) 2004 (OS 2004/3328 - Dynodiad mewn cysylltiad ag ansawdd dŵr);
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 2004 (OS 2004/706 - Dynodiad mewn cysylltiad â sŵn amgylcheddol);
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 2005 (OS 2005/850 - Dynodiad ar gyfer mesurau mewn cysylltiad ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli deunydd pecynnu a gwastraff deunydd pecynnu); a
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 2007 (OS 2007/193 - Dynodiad mewn cysylltiad â halogi tir);

23. Mae'r paragraffau uchod yn disgrifio rhai o'r pwerau gweithredol allweddol sydd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae pwerau Gweinidogion Cymru yn y meysydd pwnc hyn yn eang, ac nid yw'r rhestr uchod, ar unrhyw gyfrif, yn hollgynhwysol.

Sail resymegol

24. Mae llawer o'r gweithredu allweddol mewn perthynas â rheoli gwastraff domestig, masnachol a diwydiannol yng Nghymru yn codi o dargedau a osodwyd yn y Strategaeth 'Yn Gall gyda Gwastraff' ac a ddiwedderir gan y strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido ailgylchu gwastraff domestig gan awdurdodau

lleol drwy gyfrwng y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a'r Gronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol. Y gyllideb ar gyfer hyn yn 2009/10 yw £67m. Mae cyllid ar gael hefyd (£3.5m yn 2009/10) i'w ddyrannu ar sail gystadleuol i ddarparu seilwaith o bwysigrwydd strategol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido nifer o ddarparwyr gwasanaethau sy'n darparu cyngor a chymorth amrywiol i'r cyhoedd yn gyffredinol, i fusnesau, i'r sector cyhoeddus ac i'r sector cymunedol. Ymhlith y rhain mae asiantaethau megis Envirowise, Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), Yn Gall gyda Gwastraff, a Cylch.

25. Mewn perthynas â llygredd, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth â DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd i yrru ymlaen 'r Rhaglen Trwyddedu Amgylcheddol (RhTA). Nod RhTA yw lleihau'r baich rheoleiddio diwydiannol ar fusnesau a reoleiddir ac ar Asiantaeth yr Amgylchedd, heb leihau effeithiolrwydd rheoleiddio iechyd dynol na'r amgylchedd. Ynglŷn ag ansawdd dŵr amgylcheddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi canllawiau manwl i Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn cydymffurfio â nifer o Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r gweithredoedd allweddol ar gyfer gwella ansawdd dŵr i'w cael yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru, sef yn benodol, gweithredu i wella'r ddealltwriaeth o lygredd gwasgaredig (sef llygredd o fwy nag un ffynhonnell), ac i'w leihau a'i reoli. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n ymgymryd â llawer o'r gwaith rheoleiddio mewn perthynas â rheolaethau llygredd a rheoli gwastraff, a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid grant o tua £23m i'r Asiantaeth yn 2009-10. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bŵer cyfarwyddo cyffredinol dros Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â Chymru.

26. Ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd lleol, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau manwl yn 2008 ar y pwerau a gynhwysir yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, i gynorthwyo cynghorau cymuned a chynghorau tref i benderfynu a ddylent ddefnyddio'r pwerau o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i gynghorau cymuned a thref gymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhai sy'n taflu sbwriel, gosod posteri yn anghyfreithlon neu'n creu graffiti yn eu hardaloedd. Lansiwyd y fenter 'Trefi Taclus', un o ymrwymiadau *Cymru'n Un* yn Ebrill 2008, a chefnogir y fenter gan gyllid blynyddol o £4 miliwn. Mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol os oes tystiolaeth eu bod wedi cydweithio â chymunedau lleol, sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella ansawdd eu hamgylchedd lleol.

27. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at y cynnydd eglur a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tuag at y nod cyffredinol o ddatblygu cynaliadwy. Yn yr adroddiad diweddaraf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, a gyhoeddwyd yn Awst 2008,

dangosir gwelliannau eglur mewn 15 o'r 39 maes a fesurwyd, gan gynnwys gwelliannau mewn dangosyddion perthynol i'r amgylchedd megis cadwraeth bioamrywiaeth (statws rhywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth); ansawdd aer trefol a gwledig; ansawdd afonydd; gwastraff (deilliant gwastraff fesul dull gwaredu); gwastraff o gartrefi (a ailgylchwyd neu a gompostiwyd); dŵr cynaliadwy ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r bwletin 'Cyflwr yr Amgylchedd ' a gyhoeddwyd hefyd yn 2008, yn crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion sy'n monitro cynnydd gyferbyn â'r Strategaeth Amgylcheddol. Yr oedd y bwletin yn tanlinellu bod mwy na hanner y dangosyddion a ddiffiniwyd lle'r oedd gwybodaeth ar gael yn dangos gwelliant, gan gynnwys dangosyddion ynglŷn â rheoli gwastraff a llygredd.

28. Prif ddiben yr GCD, felly, yw rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol sy'n adlewyrchu nifer o'r swyddogaethau gweithredol a ddatganolwyd eisoes i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ffurf Mesurau. Drwy weithredu felly, a rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol y pwerau hyn i ddeddfu, bydd modd datblygu a gwella polisïau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 11-22, mae gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol eang eisoes mewn perthynas â gwastraff, llygredd ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Fodd bynnag, mae'r pwerau hyn, oherwydd eu natur, yn tueddu i fod yn dameidiog, ac ar hyn o bryd nid oes pŵer gan y Cynulliad Cenedlaethol i newid y fframwaith deddfwriaethol y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu oddi mewn iddo. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn fwy strategol i heriau critigol mewn perthynas â'r amgylchedd, drwy gynnig deddfwriaeth i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd unrhyw Fesurau yn destun craffu trwyadl ac yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

29. Mae cysylltiad agos rhwng yr angen hwn am ddull mwy holistig a chydlynol o ddeddfu a'r ffaith bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru agenda benodol ei hunan, sydd wedi ei diffinio'n eglur, mewn perthynas pholisi amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd ag amrediad eang o weithgareddau a mentrau sy'n cefnogi gwelliannau amgylcheddol, ac y mae creu amgylchedd cynaliadwy yn un o nodau allweddol y Rhaglen Llywodraethu *Cymru'n Un*. Yn benodol, mae *Cymru'n Un* yn rhwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio deddfwriaeth i gryfhau'r targedau ailgylchu, a darparu cefnogaeth well a mwy cydlynol ar gyfer rheoli gwastraff. Fel y nodwyd ym mharagraffau 4-10, cefnogir yr ymrwymiadau polisi eang a bennir yn *Cymru'n Un* gan ddogfennau strategol allweddol Llywodraeth y Cynulliad yn y maes polisi

hwn, sef y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, y Strategaeth Amgylcheddol a'r Strategaeth Wastraff.

30. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth i ymateb i heriau newydd ac arwyddocaol ynglŷn â'r amgylchedd. Un her allweddol, a phrif ddangosydd ar gyfer dyheadau datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, yw lleihau ôl troed ecolegol Cymru. Mae'r ôl troed ecolegol yn ddangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol a osodir ar y blaned, ac yn cynrychioli'r arwynebedd o dir sydd ei angen i ddarparu'n deunyddiau crai, ynni a bwyd yn ogystal ag amsugno'r gwastraff a'r llygredd a achosir – yn yr achos hwn, gan boblogaeth Cymru. Cyfrifwyd ôl troed Cymru am y tro cyntaf gan ddefnyddio data 2001, a Chymru yw'r wlad gyntaf i ailgyfrifo ôl ei throed gan ddefnyddio data 2003. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf, mae ôl troed Cymru wedi cynyddu yn ôl cyfradd gyfartalog o 1.5% y flwyddyn rhwng 1990 a 2003 – tuedd a ddyblygwyd mewn rhannau eraill o'r DU. Er bod un adroddiad wedi cadarnhau mai Cymru sydd â'r ôl troed lleiaf o blith pedair gwlad y DU, mae'n parhau'n anghynaliadwy o uchel, ac y mae angen gwneud rhagor.

31. Sialens bwysig arall i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Llywodraethu *Cymru'n Un* yw gweithredu model dinesydd-ganolog ar gyfer gwella'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gyfeirio at Adolygiad Beecham o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol(2006). Mae Llywodraeth Cynullid Cymru wedi sefydlu rhaglen feiddgar ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a dinesydd-ganolog. Bydd sicrhau gwell rheolaeth ar wastraff, gwella safonau amgylcheddol yn lleol, a diogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol rhag llygryddion yn elfennau allweddol mewn gwella ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion Cymru. Mae'n bwysig bod gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yr offer polisi priodol, gan gynnwys deddfu drwy gyfrwng Mesurau, i'w cynorthwyo i ymateb i'r heriau hyn.

Cwmpas

32. Y dull a ddilynir mewn cysylltiad â'r GCD hwn yw y dylai cymhwysedd deddfwriaethol adlewyrchu ffiniau cyfredol y materion sydd wedi eu datganoli neu heb eu datganoli.

33. Mae'r GCD yn mewnosod pedwar Mater ym Maes 6: *amgylchedd* o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, er mwyn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ar y pynciau hyn drwy Fesurau Cynulliad.

Mater 6.1 – Gwastraff

34. Mae Mater 6.1 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i Cenedlaethol ddeddfu ar faterion gwastraff ym mhob sector er mwyn cynyddu ailgylchu a gwella rheoli gwastraff yn gynaliadwy yng Nghymru. Nid yw cwmpas y Mater yn cynnwys rheoleiddio unrhyw weithgaredd yn y môr (ymdrinnir â hyn hefyd ym mharagraff 40 isod, o dan y pennawd "Eithriadau Sefydlog". Ystyr y môr, yn y cyd-destun hwn, yw'r arwynebedd o fôr cyfagos i Gymru, allan mor bell â ffin y môr tiriogaethol ar ochr y môr. (Rhoddir rhagor o fanylion am ystyr "Cymru" ac "y môr" yn y cyd-destun hwn ym mharagraff 73).

Mater 6.2 – Gwastraff yn y môr

35. Mae Mater 6.2 yn darparu cymhwysedd mewn perthynas â gwaredu gwastraff yn y môr, pan fo'r gwastraff hwnnw wedi ei gasglu, eu reoli neu ei drin ar y tir. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ynglŷn â gwastraff a waredwyd oddi ar y tir i mewn i'r môr. (Ynglŷn ag ystyr "y môr", gweler y paragraffau 34 a 73).

Mater 6.3 – Llygredd

36. Mae Mater 6.3 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer diogelu neu wella'r amgylchedd mewn cysylltiad â llygredd. Mae'r GCD yn defnyddio diffiniad eang o "lygredd", sy'n efelychu'r diffiniad yn Neddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gryfhau'r rheolaethau ar lygredd.

Mater 6.4 – Niwsans

37. Mae Mater 6.4 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer diogelu neu wella'r amgylchedd mewn perthynas â niwsansau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynglŷn â niwsansau ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Diffinnir "niwsansau", at ddibenion y cymhwysedd, fel gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n effeithio ar unrhyw le, neu sefyllfaoedd mewn unrhyw le, a allai amharu ar neu ymyrryd ag amwynder yr amgylchedd neu unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r amgylchedd. Nid yw'r diffiniad o "Niwsans", fodd bynnag, yn cynnwys gweithred, anweithred neu sefyllfa sy'n cynnwys llygru.

Eithriadau

38. Fel y dywedir uchod, mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a ddarperir gan yr GCD hwn yn adlewyrchu, yn fras, pwerau gweithredol presennol Gweinidogion Cymru. Mae'r GCD, o ganlyniad, yn cynnwys nifer o

eithriadau o'r cymhwysedd deddfwriaethol sydd, i raddau helaeth, yn adlewyrchu meysydd polisi ynglŷn â gwastraff neu ddiogelu'r amgylchedd, nas datganolwyd, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, ac nad oes gan Weinidogion Cymru swyddogaethau o bwys mewn cysylltiad â hwy. Mae'r rhan fwyaf o'r eithriadau yn yr GCD hwn yn digwydd yn y meysydd cyffredinol ynni, amddiffyn, trafnidiaeth a pholisi morol, ac yn angenrheidiol oherwydd bod y Materion mor eang fel y gellid, fel arall, ddehongli GCD fel pe bai'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu at ddiben na fwriedid ei gynnwys yn y cymhwysedd a roddir. Mae'r eithriadau, felly, yn ymgais i egluro ehangder y cymhwysedd a gaffaelir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn yr GCD hwn.

39. Mae'r GCD yn cynnwys "eithriadau sefydlog" sy'n gymwys yn unig i Faterion unigol neu i nifer o Faterion penodol. Disgrifir yr eithriadau sefydlog perthnasol ym mharagraffau 40 i 63 isod. Mae yna hefyd "eithriadau symudol" sy'n berthnasol i'r holl Faterion a nodir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Rhestrir y rhain yn Rhan 2 o Atodlen 5 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009. Mae GCD yn ychwanegu at y rhestr honno o eithriadau symudol, fel a nodir ym mharagraffau 64 i 66 o'r Memorandwm hwn

Eithriadau Sefydlog

Eithriadau o Fater 6.1 (Gwastraff) yn unig

40. Nid yw Mater 6.1 yn cynnwys rheoleiddio unrhyw weithgarwch yn y môr. (Ynglŷn ag ystyr "môr" yn y cyd-destun hwn, gweler y paragraffau 34 a 73).

41. Nid yw'r Mater hwn yn cynnwys, ychwaith, rheoleiddio darparu gwasanaethau post gan bersonau a drwyddedir gan y Comisiwn Gwasanaethau Post. Mae'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post wedi eu pennu yn Neddf Gwasanaethau Post 2000. Nid yw'r trefniadau hyn wedi eu datganoli i Gymru. Effaith yr eithriad hwn yw y byddai darpariaeth mewn Mesur y tu allan i gymhwysedd, ac na fyddai iddi effaith gyfreithiol pe bai'n honni ymdrin â mater ynglŷn â gwastraff drwy reoleiddio darparu gwasanaethau post gan berson sy'n dal trwydded gan y Comisiwn Gwasanaethau Post i'w awdurdodi i gludo llythyrau o un lle i le arall. Caiff darpariaeth mewn Mesur o dan y cymhwysedd a ddarperir gan Fater 6.1 ymdrin, fodd bynnag, â danfon deunydd i fangre pan nad oes cyfeiriad arno, ar yr amod na reoleiddir y personau sy'n ei ddanfon gan y Comisiwn Gwasanaethau Post.

Eithriadau o Fater 6.2 (Gwastraff yn y môr) yn unig

42. Mae rheoleiddio rhai gweithgareddau yn y môr cyfagos i Gymru wedi eu heithrio o Fater 6.2. (Ynglŷn ag ystyr "môr" yn y cyd-destun hwn, gweler y paragraffau 34 a 73). Ymdrinnir â threfniadau rheoleiddio mewn perthynas â'r amgylchedd morol a throsglwyddo pwerau gweithredol ychwanegol i Weinidogion Cymru yn Neddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009, a fu gerbron yr un pryd â'r GCD arfaethedig. Mae'r Ddeddf yn rhoi i Weinidogion Cymru amrediad o bwerau trwyddedu a rheoleiddio mewn perthynas â'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru, gan gynnwys pwerau i bennu gweithgareddau pellach a fydd yn destun rheoleiddio

Eithriadau o Fater 6.3 (Llygredd) yn unig

43. Mae Mater 6.3 yn eithrio nifer o bynciau sy'n ymwneud â thanwydd cludiant. Y cyntaf yw rheoleiddio cyfansoddiad a chynnwys y tanwydd a ddefnyddir mewn moddau trafnidiaeth, mewn peiriannau symudol a ddefnyddir oddi ar y ffyrdd, neu mewn tractorau amaethyddol neu goedwigol. Mae adran 30 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol osod gofynion ynglŷn â chyfansoddiad a chynnwys unrhyw tanwydd a ddefnyddir mewn cerbydau modur, ac nid yw'r swyddogaeth honno wedi ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru. Effaith yr eithriad hwn yw y byddai darpariaeth mewn Mesur y tu allan i gymhwysedd, ac na fyddai iddi effaith gyfreithiol pe bai'n amcanu – gan honni ymdrin â llygredd – i reoleiddio cyfansoddiad a chynnwys tanwydd a ddefnyddir mewn moddau trafnidiaeth, mewn peiriannau symudol a ddefnyddir oddi ar y ffyrdd, neu mewn tractorau amaethyddol neu goedwigol.

44. Eithriwyd o'r cymhwysedd hefyd y rhwymedigaethau sydd ar bersonau sy'n cyflenwi tanwydd cludiant mewn mannau yn y Deyrnas Unedig, neu ar gyfer ei gyflenwi i fannau o'r fath, i ddangos tystiolaeth o'r cyflenwad o danwydd cludiant adnewyddadwy. O dan y rhwymedigaeth gyfredol ynghylch tanwydd cludiant adnewyddadwy, mae hyn yn golygu rhoi tystiolaeth o'r cyfaint o danwydd adnewyddadwy a gyflenwir. Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau penodol mewn perthynas â'r rhwymedigaeth tanwydd cludiant adnewyddadwy. Effaith yr eithriad hwn yw na ellid defnyddio darpariaeth mewn Mesur sy'n seiliedig ar y cymhwysedd a roddir gan Fater 6.3 i newid y rhwymedigaeth tanwydd cludiant adnewyddadwy.

45. O ystyried y bydd trafnidiaeth yn debygol o gael ei bweru nid yn unig gan danwydd adnewyddadwy, ond hefyd gan ynni adnewyddadwy mewn ffurfiau eraill megis trydan, mae'r Gorchymyn hefyd yn allgáu o gymhwysedd gwneud darpariaethau ynglŷn â'r gyfran o ynni

adnewyddadwy a ddefnyddir gan drafnidiaeth, gan gynnwys pennu gofynion cynaliadwyedd mewn perthynas â chynhyrchion ynni adnewyddadwy. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau penodol mewn perthynas â'r maes polisi hwn. Effaith ymarferol yr eithriad hwn yw na allai darpariaeth mewn Mesur sy'n ymwneud â'r cymhwysedd a roddir gan Fater 6.3 bennu yn gyfreithlon y cyfrannau o ynni adnewyddadwy sydd i'w defnyddio mewn trafnidiaeth, na phennu'r criteria ar gyfer penderfynu a all ffurf benodol o ynni adnewyddadwy gyfrif tuag at rwymedigaeth neu darged ynni.

46. Mae darparu cymorth ariannol mewn perthynas â chynhyrchu neu ddefnyddio ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio mewn trafnidiaeth, gan gynnwys pennu gofynion cynaliadwyedd fel amodau ar gyfer cael cymorth ariannol, wedi ei eithrio. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau penodol mewn perthynas â'r maes polisi hwn, er bod ganddynt bŵer eang o dan adran 60 o Ddeddf 2006 sy'n caniatáu iddynt gyllido prosiectau i hyrwyddo neu wella lles amgylcheddol Cymru. Effaith yr eithriad hwn yw na fyddai'r cymhwysedd a roddir gan Fater 6.3 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar bwnc darparu cymorth ariannol ynglŷn â chynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio mewn trafnidiaeth, nac ynglŷn â defnyddio'r ynni hwnnw mewn trafnidiaeth. Felly, ni allai'r Cynulliad Cenedlaethol, er enghraifft, bennu mewn Mesur y criteria cynaliadwyedd ar gyfer cael cymorth o'r fath.

47. Mae rheoleiddio'r chwilio am olew a nwy, ac ymelwa arnynt, wedi ei eithrio o'r cymhwysedd, o ran y 9 milltir pellaf oddi wrth y tir yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. Mae'r eithriad hwn yn adlewyrchu'r faith nad oes pwerau rheoleiddio gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â llygredd a achosir gan chwilio am olew a nwy yn y rhan honno o'r môr, er bod ganddynt y pwerau hynny yn y rhan o'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru sy'n ymestyn allan am y tair milltir gyntaf, o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Bydd cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, felly, yn dynwared pŵer Gweinidogion Cymru yn y cyswllt hwn.

Eithriadau o Fater 6.4 (Niwsans) yn unig

48. Nid yw'r cymhwysedd o dan Fater 6.3 yn cynnwys gallu i osod atebolrwydd troseddol neu sifil am niwsansau sy'n tarddu o weithgareddau trydan, nwy neu olew (fel y'u diffinnir yn yr GCD) neu seilwaith cysylltiedig, pan fo awdurdod statudol ar gyfer pa bynnag weithred, anweithred neu sefyllfa sy'n cyfansoddi'r niwsans hwnnw.

49. Yn yr un modd, eithrir o'r cymhwysedd amddiffyniadau neu fathau eraill o esemptiad rhag atebolrwydd sifil neu droseddol am niwsans, pan fo'r amddiffyniadau neu esemptiadau hynny wedi eu creu drwy statud a'r

niwsans dan sylw yn ymwneud â gweithgareddau neu seilwaith trydan, nwy neu olew.

50. Gyda'i gilydd, mae'r eithriadau hyn yn golygu na fydd cymhwysedd gan y Cynulliad Cenedlaethol i wneud unrhyw berson yn atebol am niwsans sy'n tarddu o weithgarwch ynni diffiniedig os yw'r gyfraith ar y pryd yn diogelu'r person hwnnw.

51. Datgymhwysir y ddau eithriad hyn pan fo pŵer gan Weinidogion Cymru i osod yr atebolrwydd perthnasol neu ddiddymu'r amddiffyniad dan sylw.

52. Felly, er enghraifft, ni allai'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i ddynodi bod piblinellau nwy, a awdurdodwyd o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn niwsansau; ac ni allai'r Cynulliad Cenedlaethol osod rhwymedigaeth i dalu iawndal i bobl yr effeithiodd piblinell o'r fath arnynt. Fodd bynnag, os oes pŵer gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd i osod rhwymedigaeth o dan amgylchiadau penodol, yna, er gwaethaf bodolaeth awdurdod statudol ar gyfer y gweithgarwch, bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol cyfatebol.

53. Mae rheoleiddio allyriad mwg, golau artiffisial a sŵn o sefydliadau milwrol wedi ei eithrio o Fater 6.4. Mae mwg, golau a sŵn o'r sefydliadau hynny wedi eu heithrio o bwerau rheoleiddio Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn cysylltiad â niwsansau statudol. Effaith yr eithriad yw na fyddai'n gyfreithlon i'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy ddefnyddio'r cymhwysedd a roddir gan Fater 6.4, wneud darpariaeth mewn Mesur i dargedu niwsans mwg, niwsans golau neu niwsans sŵn a achosir gan fangre filwrol.

54. Mae rheoleiddio gweithgareddau olew a nwy, ac eithrio gweithgareddau a gyflawnir gan unigolyn at ei ddibenion domestig, wedi eu heithrio o'r cymhwysedd mewn cysylltiad â'r Mater penodol hwn. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau penodol ar hyn o bryd i reoleiddio niwsansau a achosir gan gyflenwi olew neu nwy etc. Effaith yr eithriad hwn yw na allai darpariaeth mewn Mesur, o dan y cymhwysedd a roddir gan Fater 6.4, ymdrin â gweithgareddau olew neu nwy, neu seilwaith cysylltiedig, ar y sail eu bod yn cyfansoddi niwsansau. Yma eto, felly, ni allai'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu mewn ffordd a fyddai'n llesteirio gosod piblinellau nwy neu olew ar raddfa fawr ar y sail eu bod yn effeithio ar amwynder neu ar ddefnydd cyfreithlon o'r amgylchedd. Ond byddai modd i Fesur ddeddfu ynglŷn â niwsansau a achosir gan weithgareddau olew neu nwy a gyflawnir gan unigolyn at ei ddibenion domestig.

55. Mae rheoleiddio chwilio am olew a nwy ac elwa arnynt wedi ei eithrio o Fater 6.4 mewn perthynas â'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i reoleiddio niwsansau mewn

perthynas â chwilio am olew a nwy ac elwa arnynt yn y môr cyfagos i Gymru. (Mae'r sefyllfa'n wahanol mewn perthynas â llygredd; ymdrinnir â hynny uchod.) Mae hyn, felly, wedi ei eithrio o'r cymhwysedd a roddir i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Fater 6.4. Effaith yr eithriad hwn yw y byddai darpariaeth mewn Mesur y tu allan i'r cymhwysedd a roddir gan Fater 6.4 pe bai'n amcanu i reoleiddio niwsansau sy'n tarddu o chwilio am olew a nwy ac elwa arnynt, yn y môr cyfagos i Gymru – er enghraifft, effaith llwyfan olew ar amwynder gweledol.

56. Mae rheoleiddio cyfathrebu a rhwydweithiau electronig y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Mater penodol hwn. Nid yw telegyfathrebu yn faes polisi sydd wedi ei ddatganoli. Effaith yr eithriad hwn yw na fyddai'n gyfreithlon i ddarpariaeth mewn Mesur, drwy ddefnyddio'r cymhwysedd a roddir gan Fater 6.4,ddiffinio agweddau ar gyfathrebu a rhwydweithiau electronig fel niwsansau a'u rheoleiddio fel y cyfryw.

Eithriadau o bob un o'r pedwar Mater a fewnosodir gan yr GCD hwn

57. Mae rheoleiddio mewn cysylltiad â rheolaethau ar beryglon damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus wedi ei eithrio o bob un o'r pedwar Mater. Rhaid dehongli'r eithriad hwn yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2003/105/EC) ac y mae'n ymwneud yn unig â gweithgarwch sydd o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb honno. Nid yw'r pŵer penodol i weithredu'r Gyfarwyddeb wedi ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Mae'r eithriad hwn yn golygu y byddai y tu allan i gymhwysedd pe bai Mesur Cynulliad yn gwneud darpariaeth at y diben o ddarparu ar gyfer rheoli peryglon damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus, yn hytrach nag at ddiben sydd y tu mewn i gymhwysedd, megis diogelu'r amgylchedd mewn perthynas â llygredd.

58. Mae datgomisiynu gosodiadau ynni a seilwaith perthynol ar y môr wedi ei eithrio o bob Mater. Mae gosodiadau ar y môr ar gyfer petrolewm, ynni adnewyddadwy a storio carbon yn ddarostyngedig i drefniadau datgomisiynu a sefydlwyd yn neddfwriaeth y DU – Deddf Petrolewm 1998, Deddf Ynni 2004 a Deddf Ynni 2008. Effaith yr eithriad hwn yw na allai Mesur Cynulliad wneud darpariaeth, o dan y cymhwysedd a roddir gan unrhyw un o'r pedwar Mater, at y diben o reoleiddio gwastraff, llygredd na niwsansau sy'n tarddu o ddatgomisiynu gosodiadau ynni a seilwaith perthynol ar y môr.

Eithriadau o Faterion 6.1 a 6.2

59. Mae rheoleiddio datgomisiynu ffrwydron mewn cysylltiad â gweithgareddau milwrol wedi ei eithrio o'r Materion hyn. Mae

datgomisiynu ffrwydron wedi ei eithrio o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (Cyfarwyddeb 2006/12/EC) ac y mae pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn adlewyrchu'r eithriad hwnnw. Golyga hyn na all darpariaeth mewn Mesur sy'n manteisio ar y cymhwysedd a roddir gan Fater 6.1 neu Fater 6.2 gael ei hanelu'n gyfreithlon at reoleiddio'r modd y trinnir ffrwydron a ddatgomisiynwyd ac sy'n tarddu o weithgareddau milwrol.

60. Mae rheoleiddio deunydd ymbelydrol mewn mangreoedd milwrol wedi ei eithrio gwmpas y Materion hyn. Mae'r eithriad hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes pwerau gan Weinidogion Cymru bwerau mewn cysylltiad â deunydd ymbelydrol mewn sefydliadau milwrol. Mae deunydd ymbelydrol mewn sefydliadau o'r fath wedi ei eithrio o ddarpariaethau Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993. Yn yr un modd, mae'r eithriad 'symudol' eang ar gyfer gosodiadau niwclear (gweler paragraff 66) yn golygu nad yw gwastraff ymbelydrol yn y mangreoedd hynny, nac ychwaith gwastraff ymbelydrol lefel uwch a symudir o'r mangreoedd hynny, o fewn cymhwysedd. Fodd bynnag, mae gwastraff ymbelydrol, nad yw mewn sefydliadau milwrol nac mewn gosodiadau niwclear, o fewn y cymhwysedd a roddir gan Fater 6.1; a gallai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaethau mewn Mesur o dan y cymhwysedd hwn ynglŷn â gwastraff ymbelydrol mewn gwastraff domestig, masnachol neu ddiwydiannol, a hefyd ynglŷn â gwaredu gwastraff ymbelydrol lefel isel iawn o safleoedd trwyddedig niwclear.

61. Mae rheoleiddio gweithgarwch perthnasol i Ddal a Storio Carbon (DSC) wedi ei eithrio o Faterion 6.1 a 6.2. Mae "perthnasol" yn cyfeirio at sefyllfa lle mae'r carbon deuocsid, ar ôl ei ddal, yn cael ei gludo i'w waredu gan biblinell yn uniongyrchol o'r man cynhyrchu i fan gwaredu tanddaearol. Nid yw'n debygol y gweithredir y math hwn o drefniant ac eithrio ar gyfer DSC ar raddfa fawr. O dan Ddeddf Ynni 2008, mae'n ofynnol cael trwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol i waredu CO_2 yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. Ar hyn o bryd nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau penodol mewn perthynas â dal a storio carbon, er bod ganddynt bwerau eang mewn cysylltiad â llygredd, sy'n eu galluogi i ymdrin â nwyon tŷ gwydr megis CO_2, a phwerau trwyddedu cyffredinol ynglŷn â dyddodion yn y môr. Cyfnod embryonig yw'r presennol, beth bynnag, yn natblygiad DSC, ac nid yw'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer yr amrediad llawn o weithgareddau DSC (gan gynnwys trefniadau ar gyfer storio o dan y tir) wedi eu diffinio hyd yma. Effaith ymarferol yr eithriad hwn yw y byddai darpariaeth mewn Mesur a geisiai reoleiddio'r agweddau penodedig ar DSC graddfa fawr (sef dal, cludo neu waredu) y tu allan i'r cymhwysedd a roddir gan yr GCD. Fodd bynnag, ni fyddai'r eithriad hwn yn rhwystro darpariaeth mewn Mesur rhag ymdrin ag agweddau ar weithgarwch DSC sydd y tu allan i'r diffiniad o DSC perthnasol, neu ymdrin ag atal llygredd o weithgareddau DSC.

Eithriadau o Faterion 6.3 a 6.4

62. Mae rheoleiddio'r defnydd o organeddau a addaswyd yn enetig (GMOau) dan amgylchiadau amgaeedig wedi ei eithrio o'r ddau Fater hyn. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol mewn cysylltiad â hyn. Mae ganddynt bŵer o dan Ran VI o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd i reoleiddio rhag niwed amgylcheddol o ganlyniad i ryddhau GMOau, ond rheoleiddir y defnydd amgaeedig o GMOau dan arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n gweithredu ledled y DU, yn unol â thelerau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae a wnelo'r eithriad hwn â thrin neu ddefnyddio organebau GM mewn labordai ymchwil neu mewn cyfleusterau defnydd amgaeedig cyffelyb, yn unig. Effaith yr eithriad yw na chaiff y Cynulliad geisio rheoleiddio'r defnydd amgaeedig o GMOau gan honni rhoi sylw i lygredd neu niwsansau.

63. Mae'r gyfundrefn drwyddedu a sefydlwyd o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 wedi ei eithrio o'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan Faterion 6.3 a 6.4. Mae'r eithriad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod trefniadau rheoleiddio ynglŷn â'r amgylchedd morol, a throsglwyddo pwerau gweithredol ychwanegol i Weinidogion Cymru, wedi eu pennu yn narpariaethau'r Ddeddf. Maent yn rhoi i Weinidogion Cymru amrediad o bwerau trwyddedu a rheoleiddio mewn perthynas â'r môr cyfagos i Gymru, gan gynnwys pwerau dros bynciau ychwanegol. Bydd yr eithriad hwn yn sicrhau cyfanrwydd y trefniadau a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, ac a gymeradwywyd gan y Senedd

Eithriadau Symudol

Eithriadau ym Mharagraff A1 o Ran 2 of Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

64. Mae GCD yr Amgylchedd ychwanegu nifer o eithriadau at baragraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae adran 94 o Ddeddf 2006, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009, yn gwneud yn eglur na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad o fewn cymhwysedd os yw'n dod o fewn unrhyw un o'r eithriadau a restrir yn y paragraff hwnnw. Mae'r eithriadau hyn yn gymwys i'r holl Faterion yn Atodlen 5, ac nid i'r Materion yn y Maes Amgylchedd yn unig. Mae'r eithriadau symudol sydd yn yr GCD Amgylchedd wedi eu cynnwys ar y sail eu bod yn uniongyrchol berthnasol i'r Materion yn yr GCD.

65. Mae'r GCD hefyd yn diwygio nifer o'r eithriadau sydd wedi eu rhestru eisoes ym mharagraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

66. Rhestrir isod yr eithriadau sydd i'w hychwanegu at Atodlen 5, neu i'w diwygio, gan y Gorchymyn hwn.

Datblygu Economaidd (Maes 4)

- Cynhyrchu trydan o orsaf gynhyrchu, pan fo'n ofynnol cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, neu awdurdod gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, ar gyfer adeiladu, estyn neu weithredu yr orsaf gynhyrchu dan sylw.

- Trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi trydan.

- Cadwraeth ynni, ac eithrio annog effeithlonrwydd ynni rywfodd heblaw drwy wahardd neu reoleiddio.

- Ynni niwclear a gosodiadau niwclear, gan gynnwys diogelwch niwclear ac atebolrwydd am ddigwyddiadau niwclear. Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys gwaredu gwastraff ymbelydrol lefel isel iawn o safleoedd trwyddedig niwclear.

Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Maes 10)

- Gwasanaethau cludo nwyddau ar y ffyrdd, gan gynnwys trwyddedu gweithredu cerbydau nwyddau. Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys rheoleiddio'r modd y defnyddir cerbydau sy'n cludo anifeiliaid, at ddibenion diogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Mae'r GCD yn diwygio'r eithriad ynglŷn â rheoleiddio defnyddio cerbydau perthnasol ar ffyrdd, adeiladu a defnyddio cerbydau perthnasol, ac o dan pa amodau y caniateir defnyddio cerbydau perthnasol yn y modd hwnnw. Mae'r diwygiad yn hepgor o'r eithriad (h.y. yn cadw cymhwysedd presennol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â) rheoleiddio'r defnydd o gerbydau perthnasol sy'n cludo anifeiliaid, pan fo'r cyfryw reoleiddio at y dibenion o amddiffyn iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu'r amgylchedd. Mae'r diwygiad hefyd yn cadw cymhwysedd presennol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Mater 10.1 (sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd).

- Hedfan, cludiant awyr, meysydd awyr a meysydd glanio. Mae tri pheth yn cael eu hepgor o'r eithriad hwn. Yn gyntaf, nid yw'r eithriad yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag deddfu, pan fo ganddo

gymhwysedd i wneud hynny, ynglŷn â darparu cymorth ariannol i ddarparwyr neu ddarparwyr arfaethedig gwasanaethau cludiant awyr, neu gyfleusterau neu wasanaethau maes awyr. Yn ail, nid yw'r eithriad yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag deddfu, pan fo ganddo gymhwysedd i wneud hynny, ynglŷn â strategaethau gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol neu awdurdodau cyhoeddus eraill ynghylch darparu gwasanaethau awyr. Yn drydydd, nid yw'r eithriad yn diddymu o gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol y gallu i reoleiddio defnyddio awyrennau sy'n cludo anifeiliaid, pan fo'r rheoleiddio hwnnw at y diben o ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion (ac eithrio iechyd pobl mewn awyren) neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Morgludiant. Mae dau beth yn cael eu hepgor o'r eithriad hwn. Yn gyntaf, nid yw'r eithriad yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag deddfu, pan fo ganddo gymhwysedd i wneud hynny, ynglŷn â darparu cymorth ariannol i wasanaethau morgludiant i Gymru, o Gymru neu o fewn Cymru. Yn ail, nid yw'r eithriad yn diddymu o gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol y gallu i reoleiddio defnyddio llongau at y diben o ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion (ac eithrio iechyd pobl ar longau) neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Harbyrau, dociau, pierau a llithrfeydd cychod. Mae dau beth yn cael eu hepgor o'r eithriad hwn. Yn gyntaf, nid yw'r eithriad yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag deddfu, pan fo ganddo gymhwysedd i wneud hynny, ynglŷn â'r harbyrau, dociau, pierau a llithrfeydd cychod a ddefnyddir neu sy'n ofynnol ar gyfer, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, y diwydiant pysgota, neu ar gyfer hamdden neu ar gyfer cysylltu rhwng lleoedd yng Nghymru (neu ar gyfer dau neu ragor o'r dibenion hyn). Yn ail, nid yw'r eithriad yn diddymu o gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol y gallu i ddeddfu at y dibenion o ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Cludo nwyddau peryglus, gan gynnwys cludo deunydd ymbelydrol.

Amddiffyn rhag Dŵr a Llifogydd (Maes 19)

- Penodi a rheoleiddio unrhyw ymgymerwr dŵr nad yw ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn Cymru.

- Trwyddedu a rheoleiddio unrhyw gyflenwr dŵr trwyddedig o fewn ystyr "licensed water supplier" yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac eithrio rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Newidiadau i'r Gorchymyn o ganlyniad i'r craffu cyn deddfu

67. Gwnaed nifer o newidiadau i'r GCD erbyn hyn o ganlyniad i'r craffu cyn deddfu gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi. Cyhoeddodd y Pwyllgorau eu hadroddiadau ar 19 Mehefin, 28 Gorffennaf ac 16 Hydref 2009, yn eu trefn. Yr oedd nifer o'r argymhellion yn ymwneud â gwneud yr GCD yn haws i'w ddeall, darparu gwell eglurder ynglŷn â'r hyn sydd y tu mewn neu'r tu allan i gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ac osgoi dyblygu diangen wrth ddrafftio'r GCD. Gwnaed y newidiadau canlynol felly er mwyn ymateb i argymhellion y Pwyllgorau hyn:

Ailstrwythuro'r Mater 6.1 gwreiddiol yn ddau Fater, gyda 6.2 yn ymwneud â gwastraff a gesglir etc ar y tir ac a waredir yn y môr

68. Yr oedd yr GCD arfaethedig y craffwyd arno cyn deddfu yn mewnosod diffiniad ar wahân o 'Gymru', a oedd i'w ddefnyddio ledled Maes 6 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, sef y Maes Amgylchedd. Yr oedd y diffiniad hwnnw yn dynwared y diffiniad o 'Gymru' yn Neddf Dehongli 1978, sy'n gyfystyr, yn fras, ag ehangdir Cymru.

69. Yr oedd hyn yn gwrthgyferbynnu â'r dehongliad arferol o'r term 'Cymru' yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Pennir yr ystyr hwnnw yn adran 158(1) o Ddeddf 2006, ac y mae'n cynnwys y môr cyfagos i Gymru cyn belled â ffin allanol y môr tiriogaethol, yn ogystal ag ehangdir Cymru.

70. Mabwysiadwyd y ddyfais drafftio hon o ddefnyddio dau ddiffiniad er mwyn adlewyrchu'r cytundeb a gyrhaeddwyd gyda Llywodraeth y DU yng Nghyd-destun Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sef na fyddai'r cymhwysedd a roddid gan Fater 6.1 yn ymestyn i'r môr.

71. Wrth graffu cyn deddfu, fodd bynnag, nodwyd y gallai bodolaeth dau ddiffiniad, a oedd yn gymwys i wahanol rannau o'r un Atodlen, beri dryswch.

72. Mae'r GCD yn darparu ffordd amgen o ymdrin â'r mater hwn, sef cael un Mater (Mater 6.1) sy'n ymwneud â gwastraff ar dir (drwy allgáu yn benodol unrhyw weithgarwch yn y môr) ac ail Fater (Mater 6.2) sy'n ymdrin yn unig â gwaredu gwastraff yn y môr, pan fo'r gwastraff hwnnw wedi ei gasglu etc ar y tir.

73. Effaith hyn yw nad oes angen cyfeirio at 'Gymru' o fewn y naill Fater na'r llall, ac nad oes angen diffinio'r term 'Cymru' yn benodol yn y Gorchymyn. Bydd y diffiniad o 'Gymru' a bennir yn adran 158(1) o Ddeddf 2006 yn parhau'n gymwys i bob Maes yn Atodlen 5 i'r Ddeddf ac eithrio pan fo'r

cyd-destun yn mynnu fel arall. Un cyd-destun o'r fath yw'r diffiniad o'r "môr" a roddir yn y Gorchymyn. Y diffiniad hwnnw yw: "y môr cyfagos i Gymru allan cyn belled â ffin y môr tiriogaethol ar ochr y môr". Yn y cyd-destun hwn, rhaid i "Gymru", yn rhesymegol, olygu "Cymru" fel y'i diffinnir yn Neddf Dehongli 1978 yn hytrach na Deddf 2006. Mae diffiniad y Ddeddf Dehongli o "Gymru" yn cynnwys ehangdir Cymru hyd at derfynau awdurdodaeth yr awdurdodau lleol ar ochr y môr. Mae cyfeiriadau at y "môr", felly, yn gyfeiriadau at y cyfan o'r môr sydd rhwng y terfynau hynny a ffin allanol y môr tiriogaethol.

74. Oherwydd y newidiadau, gwnaed rhai newidiadau canlyniadol hefyd, yn y modd y cyflwynir y Materion a'r eithriadau.

Eithriad ar gyfer cynhyrchu trydan

75. Yr oedd yr GCD arfaethedig y craffwyd arno cyn deddfu yn cynnwys eithriad sefydlog o Fater 6.4 (a elwid yn Fater 6.3 bryd hynny) a oedd yn eithrio "rheoleiddio gweithgareddau trydan" ymhlith pethau eraill, o'r cymhwysedd a roddid i'r Cynulliad Cenedlaethol gan y Mater hwnnw. Nododd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 y Cynulliad Cenedlaethol bod yr eithriad sefydlog hwnnw yn dyblygu'r eithriadau symudol ar gyfer cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi trydan, sydd i'w mewnosod o dan y pennawd Maes 4, fel diwygiadau i baragraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5. Felly, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu, a symleiddio'r Gorchymyn, mae'r eithriad sefydlog o dan Fater 6.4 wedi ei ddiwygio drwy ddileu'r cyfeiriad at "reoleiddio gweithgareddau trydan"

Eithriad ar gyfer rheoleiddio iechyd a diogelwch

76. Roedd yr GCD arfaethedig yn cynnwys eithriad o bob un o'r tri Mater ar gyfer darpariaeth a wneir drwy reoleiddio iechyd a diogelwch. Pwrpas yr eithriad oedd allgáu rheolaethau ar beryglon damweiniau mawr o gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Rheoleiddir y peryglon hyn at ddibenion ynglŷn ag iechyd a diogelwch a'r amgylchedd, ac y maent yn parhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU (er bod gan Weinidogion Cymru rai swyddogaethau ynglŷn â'u cynllunio). Yn yr GCD drafft, mae hyn bellach wedi ei ddiwygio er mwyn egluro ystyr yr eithriad. Y canlyniad yw eithriad, o bob un o'r pedwar Mater, ar gyfer rheoleiddio ynglŷn â rheolaethau ar beryglon damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus. Rhaid dehongli'r eithriad hwn yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2003/105/EC) ac y mae'n ymwneud yn unig â gweithgarwch o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb honno (gweler y paragraff 57 uchod).

Diffiniadau

77. Yr oedd Pwyllgor Deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Rhif 4) a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn argymell na ddylai'r GCD gynnwys diffiniadau ac eithrio'r rheini a oedd a oedd yn angenrheidiol er mwyn diffinio'r cymhwysedd a roddir gan y Gorchymyn hwn. Er mwyn symleiddio ymhellach, felly, mae'r diffiniadau canlynol wedi eu tynnu allan:

- Tractor amaethyddol neu goedwigol
- Peiriannau symudol a ddefnyddir oddi ar y ffyrdd
- Ynni adnewyddadwy
- Tanwydd cludiant
- Llong

Yn ychwanegol, symleiddiwyd y diffiniad o 'gosodiad ynni ar y môr' drwy wneud newid bach.

78. Gwnaed nifer o newidiadau eraill yn nhestun y Gorchymyn, a nodwyd o ganlyniad i'r craffu cyn deddfu. Rhoddir manylion o'r rhain isod.

- *Eithriad ar gyfer datgomisiynu gweithgareddau ar y môr* – Yr oedd yr GCD arfaethedig yn cynnwys eithriadau sefydlog o dan bob un o'r tri Mater. Yn y fersiwn flaenorol o'r Gorchymyn, cyflwynwyd hyn fel eithriad o dan Fater 6.1, a hefyd ar wahân fel eithriad o dan Faterion 6.2 a 6.3. Mae'r GCD bellach wedi ei ddiwygio i unioni'r mater cyflwyniadol hwn a rhestru'r eithriadau hyn ar y cyd, fel rhai sy'n gymwys i bob un o'r pedwar Mater.

- *Dal a Storio Carbon* – Gwnaed newid bach yng ngeiriad yr eithriad sy'n ymwneud â dal a storio carbon. Yn flaenorol, yr oedd yr eithriad darparu nad oedd Mater 6.1 yn cynnwys rheoleiddio "dal, cludo A gwaredu carbon deuocsid yn rhan o ddal a storio carbon perthnasol" (ychwanegwyd y pwyslais). Gwnaed diwygiad a oedd yn gosod "neu yn lle "a" , fel bod hyn yn darllen "dal, cludo NEU waredu . . .". Diben hyn oedd sicrhau bod yr eithriad yn cynnwys unrhyw reoleiddio sy'n ymwneud ag un neu ddwy, yn unig, o'r tair cydran yn y broses, ar yr amod bod y cydrannau hynny yn rhan o'r broses gyffredinol o "ddal a storio carbon perthnasol". Oherwydd y newidiadau a wnaed yn y modd y trinnir cymhwysedd ynglŷn â gwastraff, mae'r eithriad hwn bellach yn gymwys i Fater 6.1 a Mater 6.2.

Terfynau Daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

79. Mae adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd Mesurau Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio mewn perthynas â Chymru. Mae'n darparu nad yw darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os yw'n gymwys rywfodd heblaw mewn perthynas â Chymru neu'n rhoi, gosod, addasu neu ddiddymu swyddogaethau sy'n arferadwy rywfodd heblaw mewn perthynas â Chymru (neu'n rhoi pŵer i wneud felly). At y dibenion hyn, mae adran 158 o Ddeddf 2006 yn diffinio "Cymru" fel pe bai'n ymestyn allan hyd at ffin y môr tiriogaethol ar ochr y môr (12 milltir forol o'r gwaelodlinau arfordirol y mesurir y môr tiriogaethol ohonynt at ddibenion cyfraith ddomestig a rhyngwladol). Gwneir eithriadau cyfyngedig ar gyfer rhai mathau o ddarpariaethau ategol, er enghraifft darpariaeth briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, neu ddarpariaeth i alluogi gorfodi darpariaethau eraill y Mesur, neu wneud diwygiadau canlyniadol mewn deddfwriaeth arall.

80. Mae'r cyfyngiad ynglŷn â swyddogaethau nad ydynt mewn cysylltiad â Chymru yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag pasio unrhyw Fesur sy'n rhoi i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall swyddogaethau mewn cysylltiad â dim ac eithrio Cymru. Ar gyfer trafodaeth bellach o gwmpas daearyddol y cymhwysedd a roddir gan yr GCD hwn, gweler y paragraffau 68 i 74 uchod.

Swyddogaethau Gweinidogion y Goron

81. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy gyfrwng Mesur, newid swyddogaethau Gweinidog y Goron heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Ynglŷn ag unrhyw gynigion yn y dyfodol a allai effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir ag adrannau priodol Llywodraeth y DU a cheisir eu cytundeb.

Casgliad

82. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylid estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r GCD y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn berthynol iddo

Jane Davidson
Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Tachwedd 2009